LLAIS CYMRAEG Y MUDIAD BYD-EANG I DRYSORI'R DDAEAR

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 28 Chwefror / Mawrth 2012 PRIS: £1



## Robin Llewellyn - gyda gwerin Belize dan warchae'r olew

## Cerddi protest Cymraeg yr 16eg ganrif wedi rhagweld cyfraith newydd hawliau natur?

### Cofiwch Awr y Ddaear ar Fawrth 31

ISSN 1755-3504

► Arlywydd Obama'n atal pibell olew
► Ffracwyr nwy i ehangu yn y De a'r Gogledd Ddwyrain? ► Gwahoddiad Maes Gwyrdd y Brifwyl ► Århus yn gymorth i'r Gymraeg?
► Cofio Wangari Maathai, arwres y Ddaear

YMGYRCH Y DDAEAR - NEWYDDION O BEDWAR BAN

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

# Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***



Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Hefyd ar Weplyfr / Facebook

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn ddigidol gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


**Wrth i'r Papur Gwyrdd fynd i'r Wasg, mae'r ymgyrch i ddewis Arweinydd newydd i Blaid Cymru yn denu cryn sylw. Rydym yn falch i weld bod dau o'r ymgeiswyr yn gosod yr angen am ddyfodol Gwyrdd, adnewyddol, i Gymru yn uchel ar eu blaenoriaethau. Mae Leanne Wood a Dafydd Elis-Thomas wedi gafael yn y pwnc gyda gweledigaeth a brwdfrydedd. Croesawn hynny.**


***LLUN Y CLAWR: AFON TEMASH, BELIZE***

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Hapusach gyda'r ffracio na'r gwynt?
Yr Arlywydd Obama'n dweud Na! i Olew Mawr



**4** GOLYGYDDOL
Crebachiad yn gyfle ail-ystyried?
... a, Diolch i Rachel Carson




**5** LLÊN A CHYFRAITH
**Hywel Davies —**
Hen feirdd Cymreig yn rhagweld cyfraith newydd y Ddaear

**8** MAES GWYRDD PRIFWYL 2012
**Nathan Williams —**
Ymunwch â'r bwrlwm
**Charlotte Davies —**
Teyrnged i Wangari

**9** STATWS Y GYMRAEG
**Gareth Clubb —**
Dinas yn Nenmarc i roi hwb i'n hiaith?

**10** **Daear-iadur**
Calendr y Papur Gwyrdd ...

**11** **Y byd a'r aelwyd**
Lloeren yn ein llygadu a, Coffi Atomig, plis!
**Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear

**6 a 7** Adroddiad arbennig i'r Papur Gwyrdd gan y newyddiadurwr amgylcheddol Robin Llewellyn — *Ymgyrch gwerin coedwigoedd glaw Belize, America Ganol, yn erbyn y cwmnïau sy'n gwthio i dyllu am olew*



***MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12***




# Awr y Ddaear — y byd i ddiffodd goleuadau

## CYSTADLEUAETH I DDOD O HYD I'R GYMUNED Â'R DATHLIAD GORAU

**YMUNWCH â miliynau o bobl, cwmnïau a sefydliadau ledled y Ddaear i ddiffodd eich goleuadau am awr ar nos Sadwrn, Mawrth 31, fel symbol o'r angen i warchod ein Daear ryfeddol.**

Dyna alwad WWF Cymru fel rhan o WWF byd-eang — sef i fynd ati i ddiffodd ein goleuadau cartref a gwaith yn ystod Awr y Ddaear, o 8.30yh i 9.30yh.

Medd llefarydd WWF: "Nid mater o arbed awr o drydan ydy Awr y Ddaear. Mae'n fwy o lawer na hynny. Mae'n golygu sylweddoli bod y pethau rydyn ni'n eu gwneud, o'r ynni a ddefnyddiwn i'r bwyd a fwytawn a'r dŵr a yfwn yn effeithio ar y byd.

"Rydyn ni i gyd yn dibynnu ar ein planed wych ac mae angen edrych ar ei hôl nid dim ond am awr, ond bob dydd."


Ers cychwyn fel syniad syml yn Sydney yn 2006, mae Awr y Ddaear wedi tyfu'n ddathliad enfawr mewn dros 130 o wledydd a 5,000 o ddinasoedd.

Trefnir prydau bwyd golau cannwyll gan deuluoedd yn eu cartrefi, a ffrindiau mewn tai bwyta neu dafarndai, ac mae tyrfaoedd yn gwylio goleuadau'n diffodd ar dros 1,000 o adeiladau byd enwog fel Tŵr Eiffel, Pyramidiau Giza, Las Vegas Strip, Times Sgwar, Tŷ Opera Sydney ac ati ...

... Gan gynnwys Senedd Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Castell Caernarfon ac ati yng Nghymru.

**►£300 gan WWF i'r gymuned gyda'r dathliad gorau yng Nghymru, £1,000 yn y DG. Ceisiadau erbyn Chwefror 27 at:** wales@wwf.org.uk **; ffôn 02920 454970**


## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post



Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ……………………………………………………………..

CYFEIRIAD: …………………………………………………….

……………………………………. Côd Post……………...

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD



Rachel Carson

# Denu ysgrifau i ddathlu 50 mlynedd llyfr *Silent Spring*

**BU ymosodiadau ffyrnig ar Rachel Carson gan y diwydiant cemegol Americanaidd wedi cyhoeddi ei llyfr dylanwadol *Silent Spring* ym 1962.**

**Yn y llyfr, rhybuddiodd y biolegydd môr a'r llenor am orddefnydd plaladdwyr a chwynladdwyr cemegol, gan gynnwys DDT. Ei rhybudd oedd bod y gor-chwistrellu yn peryglu byd natur a phobl.**

**Erbyn hyn, edrychir ar *Silent Spring* fel sbardun hynod o bwysig i reoliadau sy'n gwarchod iechyd pobl a natur ac i sefydlu mudiadau amgylcheddol.**

**Bu farw Rachel Carson ym 1964. *[Teyrnged, tud 4]***

**I ddathlu'r 50 mlwyddiant eleni ers cyhoeddi'r llyfr, gwahoddir traethodau byr ar bynciau perthnasol amgylcheddol gan ieuenctid ac oedolion — gyda gwobrau o $1,000 a $2,000.**

►Gofynnir am y cynigion erbyn Mawrth 15. Gwybodaeth gan: perspectives@carsoncenter.lmu.de

## DATHLU WRTH I'R ARLYWYDD OBAMA ATAL PIBELL OLEW TAR TYWOD




WEDI ymgyrchu dygn, mae mudiadau amgylcheddol yr Unol Daleithiau wedi croesawu penderfyniad yr Arlywydd Barack Obama i wrthod caniatáu i'r diwydiant olew adeiladu pibell Keystone XL.

Byddai'r bibell wedi rhedeg am 1,700 milltir i gario olew tar tywod o Alberta i Gwlff Mecsico gan gyflymu newid hinsawdd a pheryglu pobl, anifeiliaid, tir a dŵr.

Meddai Bill McKibben, arweinydd mudiad 350.org: "Peidiwch ag amau — penderfyniad dewr oedd hwn ... Safodd *[yr Arlywydd]* yn gryf i wrthod y drwydded. A hynny er bygythiadau clir gan Olew Mawr — y byddai 'canlyniadau gwleidyddol enfawr' pe bai'n gwneud y peth iawn ar Keystone."

Meddai Jane Kleeb, o fudiad BOLD a arweiniodd protestiadau'r bibell yn y dalaith: "Mae'r Arlywydd Obama'n gwneud y penderfyniad anodd ond cywir ... Y llinell waelod yw, pan mae'r Arlywydd Obama'n sefyll yn erbyn Olew Mawr, rydyn ni'n sefyll gydag e."

# Gwrthod y gwynt ond hapus gyda ffracio?

## ANGEN I BOBL ABERTAWE DDECHRAU TALU SYLW I BERYGLON Y TYLLU AM NWY, MEDD JOHN CHILDS

**GAN eu bod mor brysur yn ymladd yn erbyn cynllun ffarm wynt trwy ymgyrch gref dan arweinyddiaeth alluog y cynghorydd lleol Ioan Richard (Arglwydd Faer Abertawe), dyw pobl ward mynyddig Mawr yn Sir Abertawe ddim wedi sylwi ar arwyddocâd y 'tyllu arbrofol' yn eu hardal gan ddatblygwr 'ffracio' sy'n chwilio am nwy methan.**

Hyd yn oed nawr, prin yw'r diddordeb lleol — er y posibilrwydd o ddatblygiadau dros y cyfan o'r ward, y cyhoeddusrwydd cenedlaethol i'r daeargrynfeydd bach achoswyd gan gwmni Caudrilla ger Blackpool* a'r ymgyrch llwydd-iannus yn erbyn tyllu ym Mro Morgannwg. Gallwn ond gobeithio y bydd cais cynllunio llawn yn sbarduno'r gymuned fach hon i wrthwynebu.

**Y CYFAN O DDE A GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU YN CAEL EU LLYGADU GAN Y FFRACWYR**

Oes gyda ni gymaint o obsesiwn yng Nghymru gyda ffermydd gwynt a'u heffaith 'weledol', fel ein bod wedi anghofio 200 mlynedd o hanes a'r gwir beryglon a gynrychiolir gan y diwydiant tanwydd ffosil?

'Ffracio' yw'r broses ddadleuol o dynnu nwy methan o'r graig sy'n golygu ffrwydro tanddaearol a phwmpio miliynau o alwyni o ddŵr — yn gymysg a chemegau gwenwynig — oddi tanom gyda'r rhan fwyaf yn diflannu am byth! Gan ei fod yn newydd i'r Deyrnas Gyfunol, ychydig iawn o arbenigedd neu fframwaith rheoleiddio go iawn sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau y gweithredir hyn yn ddiogel.

Dim ond copa'r mynydd iâ yw Abertawe. Caniatawyd ceisiadau 'tyllu arbrofol' eraill eisoes yng Nghastell-nedd Port Talbot a Phen-y-bont ar Ogwr, gydag un arall yn yr arfaeth yng Nghasnewydd.

Mae Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol wedi caniatáu 25 o drwyddedau ychwanegol yng Nghymru, felly byddwch ar eich gwyliadwriaeth am geisiadau 'tyllu arbrofol' yn agos atoch chi os y'ch chi'n byw rhwng Abertawe a Phont Hafren neu yn ardal Wrecsam!

Os oes gobaith i drafod y mater hwn yn iawn, rhaid i awdurdodau a phobl leol ddilyn esiampl Bro Morgannwg, sef gwrthod ceisiadau am 'dyllu arbrofol' a mynnu bod llywodraethau Cymru a'r DG yn cyhoeddi *moratorium* cyn cytuno i ddatblygiadau pellach. ■

►* Mae daeargrynfeydd yn cael eu cysylltu â ffracio yn Texas, Arkansas ac Ohio hefyd **[New York Times, Ionawr 3]**

►Wrth i'r Papur Gwyrdd fynd i'r wasg, roedd y cyfryngau'n synnu pobl Abertawe gyda bwriad cwmni o'r enw amheus *Clean Coal* i losgi glo dan eu Bae prydferth. Rhyddhau nwy i'r diwydiant ynni yw'r nod — gan guddio'r $CO_2$ dan y tonnau. Er gwybodaeth, bu trwydded ganddynt i wneud hynny ers Rhagfyr 2009 (*Pwnc Llosg, Adroddiad ar gyfer Jill Evans ASE gan D.Hywel Davies, tud 17*).

***►Llandybie yw'r darged ddiweddaraf i bobl y glo brig. Cytunwyd gan gynllunwyr Gyngor Sir Gâr er protestiadau lleol. Nifer y swyddi - 11; i'r gymuned - llwch, sŵn, llwybr beicio; i'r Ddaear - allyriadau $CO_2$.; gwerth y glo - £25 miliwn.***

## Thomas Edison — o flaen ei amser yn gweld y goleuni

Gair o gyngor gan y dyfeisiwr athrylithgar Americanaidd Thomas Edison yn y 1930au i ddau o wŷr busnes mwyaf pwerus y wlad, Henry Ford a Harvey Firestone:

**"Byddwn i'n rhoi f'arian ar yr haul ac ynni haul. Dyna ffynhonnell egni! Rwy'n gobeithio na fydd rhaid i ni aros nes i'r holl olew a glo redeg allan nes i ni fynd ati gyda hynny!" (Sori, Thomas — dyma ni'n dal yn dwp!)**

**GOLYGYDDOL** **HYWEL DAVIES**



# Wrth i'r drefn gael ei hergydio, cyfle i ail-ystyried y ffordd ymlaen?

**CYFNOD cythryblus iawn yw ein cyfnod ni. Yr hyn sy'n gosod cymeriad arbennig arno yw'r ergydion a gafwyd i'r syniad o oruchafiaeth ddynol a gododd mor gyffredin yn ein plith.**


Cymerwch gyflwr simsan iawn ein system economaidd ac ariannol — gyda'i *mantras* o Fasnach Rydd, Cyfalafiaeth, Twf Economaidd a Phrynwriaeth. Tyfodd y system yn enfawr ers yr Ail Ryfel Byd ac ymestynnodd yn fyd-eang o'r 1960au ymlaen. Crëwyd anghenfil y diwydiant ariannol i'w hyrwyddo.

Fe'n hudwyd gan arbenigwyr economaidd a gwleidyddion i gredu bod gwario mwy, a thalu amdano trwy fenthyg yn bersonol ac yn wladwriaethol, yn gwneud synnwyr perffaith. Mynnwyd mai pobl od iawn oedd yn meddwl bod byw'n gynnil ar sail cydweithrediad yn amgenach ffordd ymlaen na chystadleuaeth.

Ond wele, mae'r *pundits* ar chwâl, a'r holl system yn ystod y tair blynedd diwethaf wedi dod yn beryglus o agos at chwalfa. Bu Jeremy Paxton yn mwynhau lambastio arbenigwyr 'anffaeledig' ar **Newsnight** am ein camarwain mor hir. Parhau mae anawsterau'r gwledydd a sugnwyd i'w trobwll, a dioddef mae pobl gyffredin ar hyd a lled y byd o ganlyniad. Dal ar y dibyn ydym.

Er honiadau'r corfforaethau ariannol mai globaleiddio cyfoeth y buont, i raddau helaeth globaleiddio elw i ddosbarth y penaethiaid wnaethant a globaleiddio problemau i laweroedd o'r werin. Wrth i ni ddechrau callio, clywn yn fwy aml bod angen i ni ystyried sut i ffrwyno ar ryddid y corfforaethau barus ac anatebol, a sut i sbarduno economïau mwy lleol er mwyn hybu bywyd cymunedol o'r newydd. Priodol iawn, felly, mai eleni yw Blwyddyn Ryngwladol Mentrau Cydweithredol.

Ond, ydyn ni'n dechrau cael y neges o ran elfen arall gythryblus ein cyfnod? Yn gydymaith i dwf y masnachu rhydd, cystadleuol, ers y 1960au, bu twf enfawr yn ein defnydd o danwyddau ffosil rhad i fwydo'r alwad gynyddol am ynni. A dyna wych o beth oedd hwn, hefyd. Pobl od iawn oedd y rheiny nad oedd yn eistedd yn ôl, yn cau eu llygaid, a mwynhau'r daith. Cloddio a thyllu a llosgi amdani — ac wfft i ofnau tila. Dynoliaeth oedd yn ben ar y cyfan; gwas oedd byd natur.



Ond, bu rhybuddion cynyddol am y niwed i'r amgylchedd fu'n effeithio ar bawb ohonom, am yr ysbeilio anghyfrifol o adnoddau sy'n prinhau, ac — yn gryf iawn gan wyddonwyr — am yr allyriadau carbon sy'n achosi Cynhesu Byd-eang sydd, yn ei dro, yn achosi peryglon Newid Hinsawdd.

Ydyn ni'n talu sylw i'r rhybuddion hyn? Neu ydyn ni, fel gyda Phrynwriaeth a Masnach Global, yn hollol hapus i fynd gyda llif y corfforaethau ynni mawrion a'u cefnogwyr gwleidyddol ar bob cyfandir. Mor hudolus o syml yw eu dadl: rhaid cael yr ynni i gynnal ein safon byw ac, i bawb 'call', llosgi carbon yw'r ateb.

Fe'u clywch yn aml yn dadlau felly yng Nghymru. (Y peth nesaf mae'r cewri carbonaidd yn anelu ato yw llosgi glo dan Fae Abertawe — a chladdu'r $CO_2$ yno!)


Beth bynnag yw'r problemau a achosir gan yr ergydion cyfoes i'r system economaidd fyd-eang, pylu byddant o flaen effeithiau tebygol Newid Hinsawdd ar blant a phlant ein plant. Daw lles dynoliaeth yn un dan y bygythiad hwn i'r Ddaear sy'n drysor o gartref i ni gyd. Felly, defnyddion lai o ynni, a mynnwn ynni glan. Gwrthodwn fygythiad ynni carbon. Ataliwn elw i'r cwmnïau carbon nes iddynt droi at ynni adnewyddol, glan. A gadawn i'n gwleidyddion wybod mai dyna yw ein dymuniad er mwyn gosod seiliau cadarnach at y dyfodol i ddynoliaeth a'r cyfan o fyd natur yr ydym yn rhan ohono.

## Diolchwn i Rachel ...

**DYW'R diwydiant cemegol byth wedi maddau i Rachel Carson. Hi oedd y gwyddonydd Americanaidd a rybuddiodd dynoliaeth yn erbyn y gorddefnydd o gemegau yn ei llyfr *Silent Spring* a gyhoeddwyd 50 mlynedd yn ôl (tud 3)**

Yn benodol, cyfeiriodd at y defnydd cynyddol o chwynladdwyr ac o blaladdwyr, fel DDT. Wedi'r Ail Ryfel Byd, gwthiwyd brandiau newydd gan y cwmnïau cemegol ar ffermwyr a garddwyr fel atebion gwyrthiol bron i bob 'problem' mewn meysydd mawr a gerddi bychain.

Cyflwynodd Rachel Carson dystiolaeth eang a manwl fod y



gorddefnydd diangen o'r cemegau hyn — yn arbennig wrth eu gollwng ar bawb a phopeth gan awyrennau y '*crop-dusters*' eiconaidd — yn gwenwyno byd natur yn gyffredinol a phobl yn ogystal, gan achosi salwch a marwolaeth.

Nid galw am atal defnydd oedd hi, ond am reolaeth gyfrifol yn lle'r rhuthr at elw. Dyna oedd ei galwad, er enghraifft, ynglŷn â DDT, gan gydnabod ei bwysigrwydd wrth ddelio â malaria. Rhybuddiodd fod systemau naturiol yn dysgu sut i wrthsefyll cemegau a ddefnir yn ormodol. Rhaid oedd bod yn ddethol a chynnil.

Bu beirniadaeth ffyrnig a thwyllodrus arni gan ladmeryddion y corfforaethau cemegol oedd yn pesgi cymaint ar eu gwerthiannau. A bu elfen go gref o wawd ychwanegol yn y feirniadaeth am mai menyw oedd yn gwneud yr honiadau hyn.

Ond cafodd waith ymchwil trwyadl a rhybuddion taer Rachel Carson eu cadarnhau gan bwyllgor ymchwil gwyddonol annibynnol a grëwyd gan yr Arlywydd John F Kennedy. Profodd **Silent Spring** yn hynod ddylanwadol gan arwain at reolau i amddiffyn pobl a byd natur yn erbyn niwed amgylcheddol. Sefydlwyd mudiadau amgylcheddol arloesol yn ei sgil a mawr fu'r budd i bawb ohonom.

Hanner canrif yn ddiweddarach, trist a syfrdanol sylwi bod y feirniadaeth giaidd o Rachel Carson yn parhau, ac wedi ail-gychwyn. Am fisoedd yn 2008, gwrthododd aelodau Gweriniaethol o Senedd America gytuno i osod ei henw, yn ôl y drefn arferol i gymwynaswyr cyhoeddus, ar swyddfa bost ei thref enedigol, Springdale, PA — er y gwnaed hynny yn y pendraw; ac yn 2009 crëwyd gwefan yn benodol i'w pharddu.

Fe'i gwelir gan y llengoedd pwerus, ariannog, sy'n gwadu Newid Hinsawdd fel symbol o'r cyfan sy'n atgas ganddynt — sef ystyriaeth ymostyngol, bwyllog a chyfrifol o effaith gweithgarwch dynol ar y Ddaear a'i holl ffurfiau bywyd.

Y gwir amdani yw ein bod i gyd yn hynod ddyledus i'r wraig ddewr hon a fu farw o ganser ym 1964. Cyfrannodd yn enfawr at greu gwell fyd. Fe'i hystyrir bellach ymhlith gwyddonwyr pwysicaf yr 20fed ganrif.

Yn y rhifyn hwn o'r **Papur Gwyrdd**, rydym yn falch i dalu teyrnged i Rachel Carson ac i Wangari Maathai fel dau wyddonydd a ddangosodd yr angen i bawb ohonom barchu a thrysori'r Ddaear. Pob clod i'r ddwy ohonynt.

**HEN FEIRDD CYMREIG YN RHAGWELD YR ANGEN AM GYFRAITH BYD NATUR, MEDD HYWEL DAVIES ...**

# Galwad am gyfraith Eco-laddiad

**MAE'N naid enfawr o ddwy gerdd Gymraeg o'r 16eg ganrif i'r Goruchaf Lys yn Llundain yn 2011 – ond yr hyn sydd wedi'u cysylltu yw dinistr gan ddiwydiant yn erbyn y byd naturiol.**

Roedd beirdd *Coed Glyn Cynon* a *Choed Marchan* wedi'u cythruddo wrth i fforestydd ger Aberdâr a Rhuthun gael eu torri i lawr er mwyn bwydo ffwrnesi haearn.

Mae'r gyfreithwraig ryngwladol Polly Higgins, awdur *Eradicating Ecocide,* wedi'i chythruddo gan ddinistr tar tywod ac olew gan gwmnïau fel BP. Aeth ati i logi neuadd y Goruchaf Lys ar Fedi 30, 2011, i gynnal prawf o gyfraith newydd bosib i amddiffyn byd natur.



**Polly Higgins**

Wrth alaru am y ddifrod a wnaed i goed, anifeiliaid ac adar, awgrymodd bardd anhysbys *Coed Glyn Cynon* y dylid cynnal achos llys ar ran byd natur yn erbyn y meistri haearn Seisnig fu'n gyfrifol am y chwalfa:

***Mynnaf wneuthur***
***arnynt gwest***
***O adar onest ddigon,***
***A'r dylluan dan ei nod***
***A fynna' i fod yn hangmon.***

Esbonia'r ysgolhaig Christine James (**Cwm Cynon**, gol. Hywel Teifi Edwards, 1997): 'Achos llys yn y dull Seisnig, yn ddiau, sydd gan y bardd mewn golwg i brofi'r drwgweithredwyr o Saeson ... Ni ddylid anghofio'r cysyniad o ymholi i farwolaeth trwy drais a all fod yn ymhlyg yn y gair *cwest*, ac a allai awgrymu bod y drosedd o dorri'r coed, yng ngolwg y bardd, gyfystyr a llofruddiaeth...'

Awgrymodd Robin Clydro yn benodol yn ei gywydd *Coed Marchan* fod angen amddiffyniad cyfreithiol i fyd natur yn wyneb y niwed a wnaed yn Nyffryn Clwyd. Fe ddychmygodd e griw o wiwerod coch di-gartref yn teithio i Lundain i gynnal achos yn erbyn difrodwyr eu coedwig hynafol ger Rhuthun. Gan synnu'r llys wrth ddarllen y llw, mae un o'u plith yn annerch y swyddogion gydag ing ac angerdd:

***Ar ei llw hi ddywed fal hyn,***
***anrheithio holl goed Rhuthyn***
***a dwyn ei thŷ a'i sgubor***
***liw nos du, a'i chnau a'i stôr.***
***"Mae'r gwiwerod yn gweiddi***
***am y coed rhag ofn y ci.***
***Nid oes fry o goed y fron***
***Ond lludw y derw llwydion.***
***Nod oes gepyll heb ei gipio,***
***na nyth brân byth i'n bro.***
***Mae'r tylluanod yn udo***
***am y coed, yn gyrru plant o'u co'."***

Gan y ddau fardd Cymraeg yma, cafwyd yr awgrym heriol bod angen cyfraith benodol i amddiffyn yr amgylchedd, y Ddaear gyfan, yn erbyn llygru a dinistr gan ddiwydiant.

Ond ysgrifennu oeddynt yn yr 16ef ganrif, ac ni wrandawyd arnynt. Y mae Cymru, a'r blaned, wedi diodde llygru enbyd ers hynny, ac mae'r chwalfa'n parhau ac yn cynyddu ledled y byd.



**Llys Goruchaf y DG ar ddydd 'prawf' Eco-laddiad**

A'r chwalfa fawr hon sydd wedi ysbrydoli Polly Higgins a chefnogwyr *Eradicating Ecocide* i fentro o ddifrif ar y syniad o greu cyfraith benodol ryngwladol i amddiffyn yr amgylchedd a'r Ddaear. Eu nod yw gosod trosedd yn erbyn yr amgylchedd ar yr un lefel a throsedd yn erbyn dynoliaeth, gan fod dynoliaeth yn hollol ddibynol ar y Ddaear – sef trosedd Eco-laddiad fel Hil-laddiad

Mae gwefan Polly Higgins yn esbonio bod ei blynyddoedd fel bargyfreithiwr yn llysoedd Llundain, lle bu'n cynrychioli unigolion a chorfforaethau mewn achosion yn ymwneud ag anffafriaeth a chyfraith gorfforaethol, wedi'i harwain i'r casgliad bod angen 'cyfreithiwr da ar y Ddaear'.

Gofynai: "Beth yw ein dyletswyddau a'n cyfrifoldebau i'r Ddaear? Pa ddyletswydd o ofal sydd gennym fel dynoliaeth i'r blaned? Does gan gorfforaethau ddim cyfrifoldeb cyfreithiol am y Ddaear, ond maent wedi casglu hawliau'n dawel – yr hawl i lygru, i allyru, i ddinistrio – sydd wedi caniatau difrod a dinistr enfawr heb ganlyniadau [negyddol i'r cwmniau]. Mae'r gyfraith wedi galluogi'r anghysonder hwn trwy osod elw fel blaenoriaeth Rhif 1 ar gyfarwyddwyr a phrif weithredwyr."

Lansiwyd ei hymgyrch mewn cyfarfod yn y Cenhedloedd Unedig yn Efrog Newydd yn 2008. Erbyn 2011 paratowyd geiriad drafft ar gyfer yr hyn y cyfeirir ati fel 5ed Trosedd bosib yn erbyn Heddwch — sef Eco-laddiad.

Yr hyn a wnaed ar Fedi 30, 2011, oedd i griw *Eradicating Ecocide* logi ystafell yng Ngoruchaf Lys y Deyrnas Gyfunol ger San Steffan a chynnal arbrawf o achosion dan gyfraith o'r fath o dan amodau mor debyg â phosib i wrandawiad llys barn go iawn. Cafwyd dau QC blaenllaw i gymryd rhan – Michael Mansfield ar ran yr Erlyniad a Christopher Parker ar ran yr Amddiffyn; trefnwyd barnwr, tystion arbennigol a rheithgor. Yr unig actorion a ddefnyddiwyd oedd er mwyn cynrychioli prif weithredwyr corfforaethau ffug Global Petroleum Company a'r Glamis Group.

Roedd y cyhuddiadau'n ymwneud â dau sefyllfa go iawn hefyd, sef am yr anrheithio enfawr yn Athabasca yn Alberta, Canada, er mwyn codi tar tywod ac am y ddifrod a fu yng Ngwlff Mecsico o ganlyniad i ollyngiad olew British Petroleum. Roedd y llys yn llawn ar ddiwrnod y gwrandawiad; bu'r gweithgareddau ar Sky News; roedd gohebwyr papurau newyddion rhyngwladol sylweddol yn bresennol.

Roedd yr erlyn yn bersonol. Dyw'r gyfraith ddrafft a luniwyd ddim yn caniatau cyhuddo corfforaethau amhersonol am ddinistr amgylcheddol; yn lle hynny, awgrymir targedi prif weithredwyr yn bersonol am weithgarwch anghyfrifol eu corfforaethau. (Dywedir bod hyn wedi achosi cryn bryder ymhlith prif swyddogion corfforaethol wrth gwrdd yn eu cynhadledd yn Davos!)

Wedi'r holi manwl o'r tystion gan y bargyfreithwyr, cafodd y rheithgor y ddau brif swyddog yn euog o achosi dinistr yn achos tar tywod Athabasca, ond di-euog oedd y dyfarniad ynglŷn â difrod Gwlff Mecisco. Cytunwyd bod yr arbrawf wedi bod yn werthfawr ac yn arwyddocaol iawn.

Y sefyllfa bellach yw bod geiriad drafft y Gyfraith Eco-laddiad wedi'i gyflwyno i gyrff perthnasol y Cenhedloedd Unedig. Disgwylir trafodaethau ar welliannau a phleidleisio pellach yn ystod gweddill 2012. Y nod yw ennill pleidlais o fwyafrif o ddwy ran o dair gan y Cenhedloedd Unedig er mwyn i'r cynnig ddod yn gyfraith cyn diwedd eleni, sef cefnogaeth 86 gwlad. Bydd lobïo ffyrnig yn erbyn hynny gan gorfforaethau, wrth gwrs.

Byddai hen feirdd *Coed Glyn Cynon* a *Choed Marchan* wrth eu bodd petai Polly Higgins a'i chriw, a byd natur, a'r Ddaear gyfan, yn llwyddo ... A gwiwerod Dyffryn Clwyd, wrth gwrs. ■

► **Mae modd gweld rhannau o'r achos ar y We:** http://www.pollyhiggins.com/Polly_Higgins/The_Trial.html

► **Ceir mwy o wybodaeth ar**: http://www.eradicatingecocide.com/about-us/

*ADRODDIAD ARBENNIG O BELIZE GAN Y NEWYDDIADURWR ROBIN LLEWELLYN ...*

# Cwrdd â phobl y coedwigoedd glaw sy'n ceisio atal trais y cwmnïau olew

SAFODD y *guard* yn y glaw; roedd hi'n hi'n hanner awr wedi pump y bore a heb oleuo. Bu yno ers y noson gynt, yn sefyll wrth yr hofrennydd dan lieiniau cynfas yr oedd yn ei warchod.

Un o'r Garifuna oedd e, sef cenedl a grëwyd trwy gyd-briodi pobloedd Carib a chaethweision oedd wedi dianc ar ynys Saint Vincent yn nwyrain y Caribî. Ym 1796 cafodd miloedd eu taflu allan am sefyll yn erbyn y Prydeinwyr a'u hel i *atoll* Roatán yn Honduras. Oddi yno gadawodd y rhai a oroesodd am America Ganol — gan greu trefi a phentrefi ar hyd arfordiroedd Nicaragua, Honduras, Guatemala a Belize.

Rhwng ei gwyno am ddrewdod y petrol o'r tanc tanwydd gerllaw, disgrifiodd y *guard* sut roedd ei blant yn mynd trwy ysgol, sut roedd angen offer a gwisgoedd arbennig arnynt.

Dywedodd nad oedd Barranco — y pentref Garifuna yn ardal ddeheuol Toledo yn Belize lle'r oeddem — wedi cael digon o swyddi o'r *NGOs* amgylcheddol a'r mudiadau cymunedol a weithiai yn yr ardal.

Doeddwn i ddim wedi'i feirniadu am warchod hofrennydd y cwmni oedd yn chwilio am olew yn Parc Cenedlaethol Sarstoon Temash ger y pentref. Ond roedd hyn yn swnio fel ei amddiffyniad. Roedd y cwmni wrthi'n chwilio hefyd ar dir cyfagos oedd yn eiddo i bobl y Maya yn ôl dyfarnwyd gan Oruchaf Lys y wlad.

Honna rhai mai Barranco sy'n cynhyrchu'r nifer uchaf o PhDs yn ôl y pen yn y byd, gyda'i drigolion yn creu gyrfaoedd o bwys yn addysg, academia a llywodraeth. Y broblem yw eu bod yn gwneud hynny mewn mannau eraill. Maen nhw wedi gadael i'w pentref wywo i ddim ond 42 o gartrefi yn nythu rhwng coedwigoedd glaw y Parc Cenedlaethol a'r môr.

Ond mae Barranco wedi'i gweddnewid yn ddiweddar: mae contractwyr i'r cwmni olew yn llenwi'r tafarnau newydd ac mae hofrenyddion yn hedfan 'nôl a 'mlaen yn ystod golau dydd, yn cymryd offer i'r timau sy'n clirio coridorau trwy'r fforestydd glaw. Cyn bo hir caiff ffrwydron eu tanio yno gyda'r nod o ryddhau olew o'r ddaear oddi tano.

Roedden ni'n sefyll y tu allan i ganolfan gweithgareddau maes y cwmni olew — tŷ mawr yn brysur gyda phobl o Guatemala a Maya lleol oedd yn cyrraedd i ddechrau ar y gwaith.

Bydd y gwaith archwilio yn parhau am ryw chwe mis, ond wedyn mae pethau'n llai eglur. Roedd llywodraeth Belize wedi creu'r Parc Cenedlaethol ym 1994 heb drafod gyda'r bobl Garifuna a Maya sy'n byw ar ei ffiniau, a does dim caniatâd i godi olew mewn ardaloedd sydd wedi'u gwarchod fel hyn.



**Mae Robin Llewellyn yn newyddiadurwr llawrydd o Darowen ger Machynlleth. Mae'n sgrifennu adroddiadau i bapurau newydd fel y Guardian a Gwefannau arbennigol ar faterion rhyngwladol.**

'Nôl yn 2006, roedd twrne o'r enw Dean Barrow wedi dadlau'n llwyddiannus ar ran mudiad *[rheolaeth a gwarchod]* cymunedol SATIIM, gan atal archwilio am olew yn y parc heb asesiad o'r effaith amgylcheddol. Ond methodd â pherswadio'r llys bod archwilio ynddo'i hunan yn anghyfreithlon.

Ar ôl cael yr asesiad angenrheidiol o'r effaith amgylcheddol, mae'r cwmni olew yn ôl — a Dean Barrow yw Prif Weinidog Belize. Nawr mae'n addo i'r genedl, "Tyllu byddan nhw!"

Wyneba llywodraeth Mr Barrow ad-daliadau enbyd ar ddyledion tramor a'r bwriad yw 'dad-warchod' y parc, er mwyn i'r cwmni olew ddechrau codi olew.

Mae'r Athro Anthropoleg Joseph Palacio yn eithriad i'r patrwm: mae'n academig Garifuna llwyddiannus sydd wedi symud 'nôl i Barranco. Mae e newydd gyhoeddi gwaith ar y cyd sy'n edrych ar hanes perchnogaeth tir y pentref, gan esbonio'r ddwy gyfundrefn o rannu tir sydd wedi cydredeg â'i gilydd dros y 160 mlynedd diwethaf — y gyfundrefn drefedigaethol Brydeinig a'r traddodiad anffurfiol Garifuna.

Gofynnais i'r Athro Palacio a fu gan bentref Barranco unrhyw ran yn yr achos 2010 yng Ngoruchaf Lys Belize dderbyniodd fod cyfraith gyffredin y Maya ar bwnc tir yn rhan o gyfraith Belize, a bod pentrefi ers hynny â hawl i'w tiroedd:

"Naddo, a dyna beth rhyfedd," meddai, "gan fod cydnabyddiaeth ar lefel gwladwriaeth genedlaethol Belize ein bod yn frodorol. Cymerodd dipyn o amser i hynny gael ei dderbyn. Mae dau fath o bobloedd frodorol ym Melize — mae'r Maya a'r Garifuna.

"Ond pan ddaw hi'n fater o hawliau tir mae'r Maya wedi gafael yn y pwnc, ac maen nhw wedi bod yn gweithredu heb drafod gyda'r Garifuna ... Rhan o'r rheswm dros hyn yw nid cymaint bai ar y Maya, ond bod ein cynorthwywyr ariannol, sydd ar y cyfan o Ogledd America, yn ei chael hi'n anodd derbyn pobl dduon fel pobl frodorol. Rwy'n gwybod hyn gan fy mod wedi delio â nhw ar gryn nifer o faterion, a nhw yw'r rhai sy'n ariannu'r ymchwil a'r achosion llys sydd eu hangen."

Apeliodd y Prif Weinidog Barrow yn erbyn dyfarniad 2010 y Goruchaf Lys. Cydnabu hyn awdurdod penaethiaid etholedig pentrefi dros diroedd pentrefol gan fynnu na allai'r llywodraeth gynnig unrhyw gonsesiynau torri coed, archwilio neu gloddio dan ddeddfau perthnasol. Gwrthododd y Prif Weinidog adnewyddu cytundeb swydd Prif Farnwr y Goruchaf Lys yn ddiweddarach yr un flwyddyn.

Bellach mae timau'r cwmni olew sy'n clirio llwybrau ar gyfer ffrwydron yn gweithio ar diroedd a waharddwyd yn 2010, er na chafwyd ateb barnwrol i apêl y llywodraeth hyd yn hyn.

Alfonso Cal yw arweinydd Cymdeithas Penaethiaid Toledo oedd y tu ôl i achos 2010. Dywedodd e wrtha i nad oedd yr arian ganddyn nhw bellach i gymryd y cwmni olew a'r llywodraeth i'r llys am droseddau yn erbyn dyfarniad 2010. Roedd yn ddig bod yr heddlu yn parhau i gynnal consesiynau ar dir sy'n eiddo i'r pentrefi yn ôl y dyfarniad.

Mae Asiantaeth Bwyd ac Amaeth *[y Cenhedloedd Unedig]* yn dadlau bod y meini tramgwydd i gydweithrediad mewn datblygiadau amaethyddol a chefn gwlad yn cynnwys rhai gweinyddol a 'diwylliannol-cymdeithasol.'

Mae'r rhai gweinyddol, medd yr asiantaeth, yn cynnwys rheolaeth ganolog dros ffurfio polisïau, agweddau ffroenuchel gan staff tuag at bobl gyffredin, a phrosesau biwrocrataidd sy'n rhwystr i gydweithredu gwirioneddol.

O ran y meini tramgwydd 'diwylliannol-cymdeithasol', cyfeirir at 'feddylfryd o ddibyniaeth, ymdeimlad o rwystredigaeth a diffyg hyder mewn swyddogion gan bobl wledig incwm isel.' Crea hyn i gyd 'ddiwylliant tlodi' ymhlith y mwyafrif, gyda llwyddo i fyw o-ddydd-i-ddydd yn unig uchelgais.


Yn lle gweld dyfarniad y llys fel cyfle i gymunedau gael dianc o rwystrau fel hyn a mentro ar brosiectau, mae Prif Weinidog Barrow yn condemnio cydnabyddiaeth y Llys Goruchaf o hawliau tir y Maya fel rhywbeth sy'n 'niweidiol i les y cyhoedd, niweidiol i undod cenedlaethol a niweidiol i ddatblygiad cymuned y Maya.'

Ond mae 79% o bobl ardal Toledo yn byw mewn tlodi a gellid gweld cadernid cymdeithasol, treftadaeth ddiwylliannol, mentrau cymunedol a thwf ymwybyddiaeth gyfreithiol y Maya fel cyfoeth potensial i'r dyfodol.


Gofynnais i Alfonso Cal a fydden nhw'n gallu cynnig gwaith i bobl yn y pentrefi o gael yr hawliau llawn i'w tiroedd a addawyd gan y









**O'r chwith, gyda'r cloc: Afon Temash; patrol afon gan swyddogion y Parc Cenedlaethol; rhaglen radio Q-eqchi am y bygythiad i'r fforest; arweinydd pentref Barranco yn annerch cyfarfod; swyddogion y parc yn nodi llwybrau seismig gweithwyr y cwmni olew**

llys: "Gallwn, oherwydd rydyn ni'n gallu creu. Mae 'na dwristiaeth: dyna pam rydyn ni'n ceisio gwarchod yr ardaloedd lle gallwn ddod â thwristiaid a dangos iddyn nhw'r coed, y *rosewood*, er mwyn iddynt gael gweld drostynt eu hunain beth sydd gennym.

"Ond edrychwch ar bethau heddiw. Dyw hi ddim yn gwneud synnwyr: rydyn ni'n ceisio gwneud rhywbeth ac mae'r llywodraeth yn gwneud peth arall. Mae'n creu problem rhyngom ni. Rydyn ni'n dechrau rhywbeth ac mae'r awdurdodau'n neidio arnom yn gryf gan ddweud, "Na, na, chi ddim yn gallu gwneud hynny!"

Trwy herio dyfarniad y Llys Goruchaf i roi perchnogaeth tir i'r pentrefi, a thrwy barhau i gynnig trwyddedau i'r diwydiannau cloddio, mae Llywodraeth Belize yn atal y pentrefi rhag mynd ymlaen gyda phrosiectau cydweithredol, cynaladwy. Heb arian i dalu am addysg eu plant, maent wedi'u gadael mewn sefyllfa debyg i'r *guard* y tu allan i bencadlys y cwmni olew.

Yn ddigon eironig, mae Llywodraeth Belize mewn sefyllfa debyg. Rhaid iddi dalu US$1.47 biliwn am *superbond* am y ddyled lywodraethol, ac mae'n chwilio am ffynonellau ariannol i wynebu'r taliadau heb gwtogi ar wasanaethau cyhoeddus.

A dyma'r cwmnïau olew yn camu i'r sefyllfa gan gynnig swyddi i'r pentrefwyr a chyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth sydd mor brin o arian.

Mae'r helfa olew yn cael eu harwain ar y cyd gan gwmnïau olew Americanaidd US Capital Energy a CHx Energy. Mae CHx eisoes yn rhan o'r unig safle olew masnachol yn Belize, sydd ar dir sy'n eiddo i *Spanish Lookout*, cymuned o Menoniaid Belizaidd. Mae hyn wedi cyfrannu BZ$100,000,000 (tua US$5,000,000) i goffrau trysorlys Belize yn ôl adroddiadau'r llywodraeth.

Dywedodd cadeirydd CHx, Alex Cranberg, wrthyf fod taliadau trethi ei gwmni "yn cynnal rhaglenni llywodraethol na fyddai'n bosib eu hariannu ar wahân i hynny.

"Rydym yn cael ein cynghori gan ein cyfreithwyr lleol a rhyngwladol bod y cyfan o'n gweithgareddau yn unol â chyfreithiau Belize a dyfarniadau perthnasol y Llys Goruchaf," meddai. "Mae CHx yn un o dalwyr trethi mwyaf Belize; mae ei weithgarwch yn cynnig swyddi i nifer mawr o bobl Belize a hefyd yn ariannu rhaglenni cymdeithasol ac addysgiadol helaeth."

Roedd dau bentref wedi defnyddio'r gyfraith yn llwyddiannus i ennill rheolaeth dros eu tiroedd yn y Llys Goruchaf nôl yn 2007, gan hybu pentrefi Maya eraill i fynnu eu hawliau tir nhw yn ddiweddarach. Nawr mae cymunedau Conejo a Santa Cruz yn sefyll fel ynysoedd — dyw Timau Seismig *[y cwmnïau olew]* ddim wedi cael gwthio i'w fforestydd glaw ac mae eu hadnoddau'n cael eu dal yn gydweithredol gan y pentrefi i'w datblygu ar y cyd.

Arweinydd Conejo yn 2007 oedd Manuel Caal. Ym mis Rhagfyr, ces gyfle i wrando arno'n annerch dirprwyaeth o arweinwyr Maya oedd ar ymweliad o Guatemala yn Q'eqchi, eu hiaith gyffredin. Esboniodd sut roedd cwynion yr ardal wedi cael eu hanwybyddu gan wleidyddion ac adrannau'r llywodraeth yn Belmopan, prif ddinas Belize. Disgrifiodd eu cam nesaf:

"Roedd ein tir yn cael ei archwilio, ei werthu a'i osod ar les i bobl o'r tu allan i'r pentref. *[Felly]* fe roeson ni linell o gwmpas ein tir, a gyda chymorth mudiad cymunedol SATIIM, fe greon ni fap yn dangos tir pob pentref ... Dechreusom ddysgu bod gennym hawliau, a sut y gallem gymryd ein syniadau ar ddatrys problemau ein pentrefi i'r Llys Goruchaf."

Erbyn hyn, mae Conejo'n datblygu prosiect coedwigaeth gynaladwy. Maen nhw wedi archwilio'u tir, cyfrif y coed *rosewood* gwerthfawr, a gwneud rhestr o'r coed aeddfed y gellir eu torri lawr dros gyfnod o flynyddoedd. Gwaherddir gwerthu coed sy'n llai na meintioli arbennig er mwyn sicrhau incwm i'r genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Wrth osod gwerth economaidd cynaladwy ar y fforestydd glaw, maen nhw'n sicrhau y bydd eu tiroedd yn parhau dan fantell o goedwig fydd yn sail i brosiectau crefftau ac eco-dwristiaeth yn y dyfodol.

Gwnaeth sylwadau Manuel Caal argraff ddofn ar aelodau dirprwyaeth y Maya o Guatemala: roedd cenhedlaeth eu rhieni nhw wedi colli'r rhan fwyaf o'u tiroedd i *ranchers,* a nawr mae datblygwyr olew palmwydd, mwynwyr a chwmnïau olew yn gwthio i'r tir sydd dal ganddynt.

Manuel Xó Cú yw cydlynydd cyfreithiol AEPDI, mudiad datblygu cymunedol y Maya Q'eqchi. Yn y cyfarfod, dechreuodd ei gyflwyniad i'r cynrychiolwyr o Belize trwy danlinellu'r angen i arweinwyr drafod yn llawn gyda'u cymunedau er mwyn eu cynnwys mewn penderfyniadau pentrefol: "Yn y *Popol Vuh [corff o hanes a chyfreithiau Q'eqchi a adweinir fel y 'Beibl Mayaidd'],* mae'n dweud: 'Dylem symud gyda'n gilydd; dylem greu cyd-ddealltwriaeth; ddylen ni byth adael neb ar ôl; a ddylai neb symud o flaen neb arall'."

Dyna'r syniadau oedd yn waelodol i'w hathroniaeth. Daw hyn i'r amlwg yn eu prosiectau i alluogi gwragedd, i hyfforddi pobl i gynrychioli eu cymunedau mewn gwleidyddiaeth a datblygiad, ac i ddod â chyfiawnder yn agosach at bobl Q'eqchi Guatemala.

Neges Maya Guatemala i grwpiau tebyg Belize oedd i beidio byth â derbyn colli'r hawliau i diroedd eu pentrefi, fel gwnaeth eu rhieni nhw — gan eu gadael i wynebu brwydr anghyfartal.

Nôl ym mhentref Barranco, gadewais y *guard*, gan gymryd bws a adawodd y pentref yn y glaw gan frwydro trwy'r goedwig ar hyd lôn rychiog.

Yna, wrth iddi ddechrau goleuo, fe basion ni fws oedd yn llawn gweithwyr. Maya gyda helmedau gwyn plastig a chrysau *fluorescent* oedd ynddo, ar eu ffordd i ddechrau gwaith ar lwybrau seismig y cwmni olew.

Gwyliais eu bws yn mynd heibio gan deimlo, o ystyried y dewisiadau posibl, nad dianc rhag tlodi oedd hyn, ond enghraifft ohono.

# Byddwch yn rhan o e-Coleg bywiog Prifwyl 2012!

## Cysylltwch â Nathan gyda'ch syniadau Gwyrdd

**EIN bwriad hefo'r e-Coleg a gynhelir ar Faes Gwyrdd Eisteddfod Genedlaethol Bro Morgannwg yn Llandŵ yw creu hafan i wybodaeth, dadl a sgwrs ar bynciau ecolegol diddorol.**

Rydym wrthi'n creu dolennau hefo prifysgolion ledled Cymru, gan eu gwahodd i ddanfon arbenigwyr atom i gyflwyno darlithiau 30 i 60 munud, gyda chwestiynau i ddilyn.

Hoffwn weld nifer o agweddau ecolegol yn cael eu cyflwyno, ac i rai o'r darlithiau drafod ein hanes wrth archwilio perthynas dynoliaeth â natur — gan drafod, hefyd, ymdrech presennol y genedl i fyw yn gytûn gyda'r ddaear.

Yn ogystal â chyflwyniadau a thrafodaethau academaidd, bwriadwn wahodd cynrychiolwyr o gwmnïau egni adnewyddol a gwyddonwyr ecolegol i drafod dyfodol egni adnewyddol yng Nghymru; hefyd cynrychiolwyr o brosiectau permaddiwylliant a chadwraeth gymunedol, Trefi Trawsnewid a.y.b.



Adroddiad gan NATHAN WILLIAMS Trefnydd

Gwahoddwn siaradwyr Cymraeg o gymunedau ecolegol (megis ecobentrefi ac amaethyddiaeth gymunedol) i gymryd rhan. Mae'r potensial am amrywiaeth yng nghynnwys yr e-Coleg yn gyffrous dros ben.

Bwriadwn drafod nifer helaeth o bynciau difyr, o esiamplau lleol o brosiectau 'gwyrdd' arloesol at bynciau llywodraethol o bolisi a chynllunio.

Hoffwn yn fawr gael cyflwyniadau gan weithredwyr gwyrdd a myfyrwyr brwdfrydig hefo syniadau ffres a difyr — i sicrhau cynrychiolaeth eang o farnau a sectorau. Difyrrwch ac enaid, ac nid yn unig ysgolheictod, yw'r pethau pwysicaf i ni yn rhaglen yr e-Coleg.

Rhaid cofio barddoniaeth mewn Eisteddfod! Rydym wedi gwahodd Dr Geraint H Jenkins o Brifysgol Aberystwyth i siarad am ei lyfr diweddaraf ar wleidyddiaeth a llenyddiaeth Iolo Morgannwg, dyn pwysig iawn fel llenor ac am ei gyfraniad i'r Eisteddfod Genedlaethol, oedd yn byw yn agos iawn at faes Llandŵ.

Felly nid 'Coleg' academaidd yn hollol fydd yr e-Coleg ond fforwm i syniadau gwyrdd, mewn egwyddor ac yn ymarferol. Difyr cofio bod Coleg Derwyddol wedi bodoli ers talwm yn Llanilltud Fawr. Efallai buasai trafodaeth ar sut y buasai Coleg Barddol felly yn gallu bodoli eto yn ddiddorol.

Bydd pob cyflwyniad yn y Gymraeg, er gobeithiwn gynnig gwasanaeth cyfieithu. Rydym yn dal i chwilio am gyfieithwyr, ac arian i'w talu am eu gwaith.

**► Os oes gennych chi, neu'ch mudiad neu gwmni, ddiddordeb mewn cynnig cyflwyniad, neu gadeirio dadl, cysylltwch ar 02921 252319 os gwelwch yn dda, neu e-bostiwch nathan@maesg.org.uk. Facebook: Maes Gwyrdd 2012. Gwefan newydd: www.maesg.org.uk. Ni fedr y cynllun hwn ddod at ei gilydd heb fwy o gyfraniadau gan ecolegwyr Cymru. Hoffwn annog darllenwyr Y Papur Gwyrdd i ledu'r gair a chysylltu hefo ni cyn gynted â phosibl!**

# Colli Wangari — gwraig ddewr y coed a'r Ddaear

**FEL merch ffarm yn Kenya yn y 1940au, mwynhaodd Wangari Maathai blentyndod yng nghanol fforestydd a thirlun cyfoethog oedd yn cwrdd â holl anghenion y teulu.**

Cafodd ei hanfon i ffwrdd i ysgol yn 11 oed — gan ennill graddau BSc a MSc o brifysgolion yn yr UDA yn ddiweddarach. Hi oedd y fenyw gyntaf yn nwyrain Affrica i dderbyn PhD, sef o Brifysgol Nairobi.

Ond ni anghofiodd Wangari ei chariad at dir a fforestydd ei hieuenctid. Fel Pennaeth Adran Filfeddygaeth Prifysgol Nairobi yn y 1970au teithiodd ar draws Kenya a chafodd ei siomi i weld ei fforestydd brodorol yn diflannu a phlanhigfeydd masnachol te a choffi yn cymryd eu lle. Y canlyniad oedd sychder difrifol, colli bioamrywiaeth a thlodi enbyd ymhlith y bobl gyffredin.

Y menywod oedd yn dioddef mwyaf o'r dirywiad amgylcheddol gan mai nhw oedd yn bennaf gyfrifol am edrych ar ôl eu teuluoedd, tyfu eu bwyd a chasglu dŵr a choed tân. A phenderfynodd Wangari wneud rhywbeth amdano.

Ym 1976, cyflwynodd Wangari Maathai gynllun i helpu pobl i blannu coed ar diroedd pentrefol. Sefydlodd mudiad y *Green Belt* i weithio ar lefel gymunedol i warchod yr amgylchedd a lleihau tlodi trwy blannu coed.



Wangari Maathai: 1940—2011

Bellach, mae'r mudiad wedi plannu mwy na 40 miliwn o goed ac wedi ysbrydoli arweinwyr mewn gwledydd ar draws Affrica a ledled y byd i lansio mudiadau tebyg.

Roedd Wangari Maathai yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng ysbeilio'r ddaear ac anghyfiawnder cymdeithasol. Bu'n gryf ei beirniadaeth o Fanc y Byd ac economeg y Gorllewin.

Dywedodd, "Dydy pobl ar frig y pyramid ddim yn deall y cyfyngiadau sydd ar dwf a dydyn nhw ddim yn sylweddoli eu bod nhw'n peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion eu hunain. ... [Maent] yn cael eu dallu gan ... eu hysfa i feddiannu, pentyrru a gor-brynu. Mae hawliau'r rhai ar y gwaelod yn cael eu diddymu bob dydd gan y rhai ar y brig."

Cafodd ei gweledigaeth a'i gwaith eu cydnabod yn 2004 pan dderbyniodd hi'r Wobr Nobel am Heddwch. Yn 2006 arweiniodd gynllun y Cenhedloedd Unedig i blannu mwy na 7 biliwn o goed ar draws y blaned.

Bu farw Wangari yn 71 oed ym mis Medi'r llynedd. Hyd yn oed wrth iddi ymladd â'i salwch olaf, bu'n gwrthsefyll y corfforaethau tu ôl i'r planhigfeydd palmwydd masnachol niweidiol yn Indonesia a Malaysia.

CHARLOTTE DAVIES

**► Lansiwyd ymgyrch i blannu 1biliwn o goed ledled y byd i gofio am Wangari. Manylion: *www.greenbelt.org***

**TEYRNGED yr Archesgob Desmond Tutu: "Roedd Wangari Maathai wedi deall y cysylltiad annatod rhwng tlodi, hawliau a chynaladwyaeth amgylcheddol ac roedd hi'n gweithredu ynglyn ag e. "Gallwn ond rhyfeddu at ei gweledigaeth a maint ei llwyddiant. Roedd hi'n wir arwres Africanaidd."**

*DEFNYDDIWCH EIN HIAITH — Y NEGES I ASIANTAETH YR AMGYLCHEDD ...*

# Århus - y ddinas yn Nenmarc allai sicrhau cymorth i'r Gymraeg



Theatr urddasol yn Århus — dinas ail fwyaf Denmarc

Gan
GARETH CLUBB
Pennaeth Cyfeillion y Ddaear Cymru

**BETH a wnelo Århus â Chymru? Dinas ail fwyaf Denmarc yw Århus, a dinas braf iawn, fel y gwn i. Yn ôl yn 2000, bodiais yna gyda dau gyfaill i fynychu gŵyl gelfyddydol, a chael llawer iawn o hwyl yn yfed Tuborg ar strydoedd y ddinas yng nghwmni torfeydd o bobl y wlad waraidd honno.**

Ond mae Århus yn llawer pwysicach i fi'r dyddiau yma, ac mae'n mynd i fod yn enw cynyddol gyfarwydd i bobl Cymru dros y misoedd i ddod.

Erbyn i chi ddarllen rhifyn yma o'r **Papur Gwyrdd**, bydd Asiantaeth yr Amgylchedd wedi gwneud penderfyniad pwysig: naill ai bydd pob dogfen sy'n gysylltiedig â cheisiadau am bwerdai mawr (yn fwy na 50MW) yng Nghymru (neu sy'n berthnasol i Gymru, fel Hinkley Point) yn ddwyieithog, neu byddan nhw ddim.

Ac os bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn penderfynu nad ydynt â'r awydd i wneud yn siŵr bod ceisiadau gan ddatblygwyr, yn ogystal â dogfennau'r Asiantaeth ei hun, yn ddwyieithog, bydd Cyfeillion y Ddaear Cymru yn dwyn achos yn eu herbyn gerbron Pwyllgor Gorfodaeth Confensiwn Århus.

Mae Confensiwn Århus yn gytundeb rhyngwladol a luniwyd ym 1998 ac a ddaeth yn weithredol ym mis Hydref 2001. Mae'r Confensiwn yn gosod dyletswyddau ar lywodraethau sydd wedi arwyddo'r cytundeb. Arwyddodd y Deyrnas Gyfunol y Confensiwn ym 1998 a chadarnhawyd hynny yn 2005.

Pan fo'r llywodraeth yn ystyried penderfyniadau mawr am yr amgylchedd (gan gynnwys pob datblygiad cynhyrchu ynni sy'n fwy na 50MW), rhaid iddynt sicrhau hawliau i'r cyhoedd gael:

- mynediad i wybodaeth
- y cyfle i gyfrannu
- mynediad i gyfiawnder

Mae'r Confensiwn yn cyfeirio at 'geisiadau' datblygu yn ogystal â chynlluniau llywodraethol, sy'n golygu cynnwys cynlluniau arfaethedig gan gwmnïau ynni.

Yn bwysig iawn, mae'r Confensiwn yn cynnwys pob 'awdurdod cyhoeddus' o dan y drefn hon, felly mae sefydliadau megis Asiantaeth yr Amgylchedd, DECC, yr IPC a Llywodraeth Cymru i gyd yn dod o dan reolau Århus.

Mae Llywodraeth y DG wedi gweithredu gofynion y Confensiwn mewn sawl ffordd, gan gynnwys gyda'r Rheoleiddiadau Gwybodaeth Amgylch-eddol. Ond dyw'r llywodraeth erioed wedi cyfeirio at yr iaith Gymraeg yn yr un o'r Deddfau na Rheoleiddiadau hyn.

Ac wrth gwrs, mae enghreifftiau di-ri o fethiannau llwyr gan sefydliadau llywodraethol i gymryd ystyriaeth o'r iaith Gymraeg.

Fe fydd darllenwyr **Y Papur Gwyrdd** yn ymwybodol o'r llosgydd arfaethedig a drechwyd gan bobl leol ardal Merthyr Tudful ddiwedd Hydref. Roedd dros 100 o ddogfennau cais ar gael i'r cyhoedd, gan gynnwys asesiadau Effaith Iechyd ac Amgylchedd — a dim un gair o Gymraeg.

Roedd ymgynghoriad Asiant-aeth yr Amgylchedd ynghylch atomfa Hinkley Point yn cynnwys cais gan y datblygwyr — dros fil o dudalennau a dim gair o Gymraeg.

Ac yn ôl yn 2008, cyhoeddodd DECC ddogfennau ymgynghorol ynghylch ynni niwclear. Wedi cyfnod hir o aros am y fersiynau iaith Gymraeg, dyma nhw'n cyrraedd — tri mis a hanner ar ôl dyddiad cau'r cyfnod ymgynghori!

Ond pam bod diddordeb gyda Chyfeillion y Ddaear yn hyn o beth? Onid rhywbeth astrus, ieithyddol ydyw'r ddadl hon?

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru newydd lunio strategaeth pum-mlynedd. Mae saith amcan yn y strategaeth, gan gynnwys, "sicrhau cyfiawnder amgylcheddol i bobl Cymru".

Os ydym am wneud yn siwr bod gan bawb yng Nghymru lais i fynegi barn am gynlluniau allai effeithio ar yr amgylchedd, mae'n rhaid i'r wybodaeth fod yn ddwyieithog. Dychmygwch y sefyllfa pe byddai Asiantaeth yr Amgylchedd yn caniatáu dogfennau cais yn uniaith Gymraeg!

Mae'n debyg nad ydym yn gallu dibynnu ar Lywodraeth y DG i roi hawliau cyfartal i ni gael mynediad i wybodaeth amgylcheddol — er bod yr hawliau hynny wedi'u gosod gan Gonfensiwn rhyngwladol.

Ac oherwydd hynny, ac oherwydd esgeulustod gan sefydliadau fel Asiantaeth yr Amgylchedd, mae'n debyg iawn y bydd Pwyllgor Gorfodaeth Confensiwn Århus yn derbyn cwyn gan Gyfeillion y Ddaear Cymru yn fuan iawn.

**Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.**

**Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.**

**www.cyddcymru.co.uk**
**02920 229 577**

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru

# Caerdegog yn gaer i ni gyd

MAE'R Papur Gwyrdd yn falch i ddatgan ein hedmygedd o deulu Ffarm Caerdegog, Ynys Môn, am eu safiad dewr yn erbyn y pwysau a roddwyd arnynt gan Horizon, cwmni barus atomfa Wylfa B.

Daethant yn symbolau pwerus yng Nghymru o ymdrechion gwerin gwlad ledled y Ddaear i sefyll dros werthoedd gorau dynoliaeth yn erbyn grym corfforaethau ymosodol sydd â'u llygaid ar elw ariannol.

Yn gynt yn y Papur Gwyrdd hwn, clywn gan Robin Llewellyn am gadernid gwerin Belize wrth iddynt geisio amddiffyn eu treftadaeth nhw yn erbyn cwmnïau olew. I'n tyb ni, mae Richard a Gwenda Jones a'u mab Owain yn yr un olyniaeth trwy wrthod ildio rhan o Ffarm Caerdegog i Horizon sy'n uniad o RWEn power ac E.on uk. Fe'u llongyfarchwn am gynnal gwareiddiad yn eu rhan nhw o'r byd.

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Detholiad mympwyol o weithgareddau cymunedol ledled Cymru**



## Dydd 'cynaladwy'



STADIWM Liberty, Abertawe, amdani ar ddydd Iau, Chwefror 9. Ond, sori, nid am y Gweilch na'r Elyrch — ond am sesiwn gan gwmni Empower i drafod cynaladwyedd cymunedol, amgylcheddol ac economaidd. Disgwylir 400 o gynrychiolwyr busnesau, elusennau a mentrau cymdeithasol yno.

► **Manylion: Ffi o £60 +TAW; ebost bookings@empowersvs.co.uk; ffôn 01443 749787**

## Arbed ynni yn y Borth

BYDD cyfarfod yn Neuadd Gymuned y Borth, Aberystwyth, i ddangos sut i arbed ynni cartref ar nos Lun, Chwefror 20, am 6.30. Fe'i cynhelir gan arbenigwyr y Ganolfan Dechnoleg Amgen, Machynlleth.

► **Gwybodaeth: Ffôn 01654 705950; http://www.cat.org.uk/**

## Sgwrs a ffilm Llambed

DAU ddigwydd yn Chwefror yn Neuadd Victoria, Llambed, dan nawdd grŵp Tref Trawsnewid: ***Nos Lun, Chwefror 6, am 6yh***: Sgwrs gan Louise Weinzweig o Oxfam Cymru am yr effaith ar Affrica wrth i wledydd tramor feddiannu tiroedd i dyfu bwyd. ***Nos Sadwrn, Chwefror 11, 6yh***: Ffilm *Pray the Devil back to Hell* — hanes gwragedd dewr ac ymroddedig yn Liberia weithiodd i ddod â rhyfel i ben gan weddnewid cymdeithas.

## Llyffantod Moelyci

*ANGHOFIWCH Springwatch!* medd criw byrlymus Canolfan Amgylcheddol Moelyci, ger Tregarth, Bangor. Mae un o'r golygfeydd mudo mwyaf i'w weld wrth bwll cyfagos yno gyda'r hwyr. Bob nos Lun o Chwefror 20 am chwe wythnos gwahoddir pobl i wylio llyffantod duon yn mudo. Bydd y niferoedd yn amrywio felly ewch fwy nag unwaith i'w gweld yn eu holl ogoniant.

A chofiwch **Ras Moelyci**, Dydd Sadwrn, Chwefror 25. Cofrestru o 9.30yb ymlaen. Ras yn cychwyn 12yp.

► **Ffôn 07934 489 330; ebost office@moelyci.org; gwefan www.eryriharriers.org.uk Manylion: http://www.moelyci.org/**



## Masnach Deg

COFIWCH am weithgareddau Pythefnos Masnach Deg rhwng Chwefror 27 a Mawrth 13. Mae mudiad masnachu teg yn ein hannog i gymryd camau bychain ond gwerthfawr i gynorthwyo miliynau o ffermwyr, gweithwyr a'u cymunedau ledled y byd sy'n haeddu cyfiawnder wrth gynhyrchu a gwerthu'u nwyddau. Gwahoddir syniadau dyfeisgar, heriol, doniol — a blêr!

► **Manylion: info@fairtradewales.com**

## Natur yn Sain Ffagan

BRAF iawn bod Amgueddfa Werin Sain Ffagan yn datblygu fel canolfan gwylio byd natur. Lansiwyd Prosiect Gwylio Natur yno'r llynedd gyda digwyddiadau i fwynhau sylwi ar fywyd gwyllt diddorol y llecyn hudolus hwn. Dywed Hywel Couch, Hwylusydd Archwilio Natur yr Amgueddfa, y bydd llawer yn digwydd eto eleni. Sylwch yn arbennig ar ddiwrnod *Byw'n Wyrdd* yn y Tŷ Gwyrdd ar Sadwrn, Chwefror 4 (11-1; 2-4) fydd yn ein helpu i arbed ynni cartref; ac *Wythnos Genedlaethol Bocsys Nythu*, Chwefror 13 - 17, gyda chyngor ar sut i helpu adar yn ein gerddi.

► **Manylion: Cysylltwch â Hywel Couch trwy ffonio 02920 573500 neu arlein www.amgueddfacymru.ac.uk**

## Gwenyn Conwy

NOSON arbennig iawn am hanes ac arferion cadw gwenyn yn Nyffryn Conwy gan Pete Barrer yng Ngwesty'r Dderwen Frenhinol, Betws y Coed. Bydd sôn, hefyd, am y datblygiadau perthnasol cyffrous yn y Tŷ Hyll. Cynhelir y ddarlith dan nawdd Parc Cenedlaethol Eryri ar nos Wener, Chwefror 24.

► **Manylion: Ffôn 01286 685498; ebost frances@snowdonia-society.org.uk**

## Morfa Dyffryn

GOBEITHIR gweld rhai o flodau cynnar y gwanwyn yn ystod cylchdaith yng Ngwarchodfa Natur Morfa Dyffryn ger Dyffryn Ardudwy ar Sadwrn, Mawrth 31. Bydd warden Parc Cenedlaethol Eryri, Gethin Corps, yn arwain y daith o faes parcio Bennar gan esbonio ecoleg a hanes y warchodfa brydferth a diddorol hon. Am ddim i bawb, ond cysylltwch ar frys i sicrhau lle.

► **Manylion gan Frances Smith - ebostiwch frances@snowdonia-society.org.uk neu ffoniwch 01286 685498**



## Gerddi Colby

CEIR gweithgareddau amrywiol o dan thema'r gwanwyn yng Ngerddi Coedwig Colby, yn Stepaside, Amroth, Sir Benfro, ar Chwefror 13, 14 ac 15 rhwng 11yb a 3yp. Rhywbeth i bawb gan gynnwys gweithdai celf a chrefft a gwyddoniaeth dan do. Cynhelir y sesiynau gan Barc Arfordirol Sir Benfro mewn cydweithrediad â'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

► **Manylion: Ffôn 01834 811885**

## Dathlu cydweithredu

ELENI mae'r Cenhedloedd Unedig yn dathlu Blwyddyn Ryngwladol Mentrau Cydweithredol. Dengys Sefydliad Bevan fod mentrau cydweithredol yn cynhyrchu £1 biliwn o incwm yng Nghymru, gan gynnig tua 7,000 o swyddi ac elw cyn treth o £19 miliwn. Bwriad Canolfan Cydweithredol Cymru yng Nghaerdydd yw codi proffeil y sector pwysig hwn sy'n hanfodol i ddyfodol economaidd mwy cyfiawn i bawb.

► **Gwybodaeth: http://www.walescooperative.org**

**ATGOFFA'R BEIRDD ...**
**Cerddi Newid Hinsawdd at Awel Aman Tawe erbyn Mawrth 31. Gwobr o £500.**


## HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD

**Am *Wybodaeth a Chostau Hysbysebu yn* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn Chwefror 27 ar gyfer rhifyn Ebrill / Mai 2012.**


## CROESO I'CH SYNIADAU AR GYFER Y PAPUR GWYRDD

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion, hysbys digwyddiadau a syniadau i'r Papur Gwyrdd — erbyn Chwefror 27 os ar gyfer rhifyn Ebrill / Mai 2012.**
**Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

**Gwefan Y PAPUR GWYRDD Y porth Cymraeg i fudiadau'r Ddaear**
**www.ypapurgwyrdd.com**

# Y byd a'r aelwyd

**Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'**

## Lloeren fry yn ein cyfeirio at bwll yr hwyaid

**BYDD rhai ohonoch chi'n cofio i ni sôn y llynedd am anrheg Nadolig gawson ni — gan berthnasau annwyl oedd wedi chwilio am rywbeth addas i 'bobl Wyrdd.' A dyma ni eto eleni ...**

Be gawson ni'r llynedd oedd hanner dwsin o oleuadau ynni haul ar gyfer yr ardd. Daeth ein merch adref o'r gwaith un noson a chael ei dychryn gan feddwl bod UFO wedi glanio 'ma (gyda *Little Green Men,* wrth gwrs).

Be' gawson ni'r tro yma gan berthnasau o America — ydy, mae'r gair am ein cyflwr Gwyrdd ar led yn y teulu — oedd teclyn i'n cynorthwyo wrth fentro i gerdded yn yr awyr iach rhag i ni fynd ar goll (mae ein perth-nasau'n teimlo'n saffach o lawer rhwng muriau, dan dô, neu o leiaf mewn car).

Wrth droi'r teclyn bach ymlaen yn eich llaw, mae'n chwilio am loeren yn y gofod (sef canlyniad i ddegawdau o flynyddoedd o ymchwil wyddonol a dyfeisgarwch technolegol ar gost o biliynau).

Wedi cysylltu â'i ffrind, daw saeth i'r sgrin fach i ddangos ble mae pwynt y Gogledd — sef, wrth gwrs, y tu hwnt i Fynydd y Gwair, ond dyw'r teclyn ddim yn gallu dweud hynny.

Nawr eich bod yn gwybod ble mae'r Gogledd, a'r teclyn a'r lloeren yn y gofod yn gwybod ble rych chi, mae'r teclyn yn eich gwahodd i nodi lleoliad eich cartref, neu eich car. A'r nod rhyfeddol yw bod y teclyn yn dweud wrthych sut i gyrraedd yn ôl i'r pwynt hwnnw. Gellwch gerdded yn hollol ddiogel — yr holl ffordd i Barc Treforys, efallai — gyda'r teclyn yn mesur pob llathen ac yn cofio, cofio, cofio o ble y daethoch.

Er chwilfrydedd, gwnaethom hynny. Roedd hi'n ddifyr nodi'r pellter, a'n cyfeiriad yn ôl graddau'r cwmpawd. Ond braidd yn *spooky* oedd hi fod y lloeren yn cadw golwg arnom mor ofalus. Serch hynny, cafodd y tri ohonom amser da'n cymuno â Natur yn y parc — y ddau ohonom ni a Thaliesin, ein llamgi Cymreig sydd â llawer mwy o ddiddordeb mewn hela'i hoff bêl ar lethrau Cwm Tawe na myfyrio.

Yna, troesom y teclyn nôl ymlaen (mae'n cysgu'n aml) er mwyn cael ei farn ar sut i gyrraedd adref. A chwarae teg, roedd e'n gwybod yn hollol iawn gyda'r saeth yn troi'n chwim i ddangos y cyfeiriad.

Yn anffodus, pwyntiodd y saeth yn syth trwy ganol pwll yr hwyaid a'r gwyddau. Beth bynnag am yr hwyaid, fyddai'r gwyddau ddim wedi'n croesawu petawn wedi dilyn cyngor y lloeren.

Diffoddwyd y teclyn a'r cysylltiad GPS. A llwyddasom i gyrraedd adre'n ddiogel, ac yn sych. Oes, mae 'na wahaniaeth rhwng y cyfeiriad a'r ffordd!

## Coffi? Dim diolch!



Y LLYNEDD aethom am hoe fach i Ynysoedd y Scilly. Cawsom amser hynod o braf yn cerdded, yn marchogaeth ar feiciau a cheffylau, yn cael gwers ddysgu hwylio a nofio yn y môr (dim cysylltiad rhwng y ddau), yn teithio rhwng yr ynysoedd ac ati. Ymlaciol iawn.

Prin iawn oedd yr amser siopa ac felly penderfynon ni archebu mwg coffi ar y we i gofio am y pleserau a gawsom. Bu anffawd. Danfonwyd y mwg anghywir atom, a gwahanol iawn oedd diddordebau prynwyr y mwg hwnnw i'n rhai ni. Y llun ar y mwg, coeliwch neu'i beidio, oedd o ffrwydrad atomig. A'r geiriau arno oedd *Operation Crossroads Nuclear Test, Bikini Atoll - 25 July 1946.*

Dim ond gair bach i rybuddio'n gilydd bod yna bobl yn y byd yma sy'n gallu mwynhau mwg o goffi gan ddathlu datblygiad arfau niwclear.

***Hwyl am y tro,***
***Hywel a Charlotte***

## NÔL I'R WLAD

LLYGEDYN o oleuni i Roegwyr ynghanol trafferthion eu gwlad. Yn dilyn traddodiad, mae'n gyffredin ar bob lefel o gymdeithas bod pobl yn etifeddu ychydig o dir. Nawr, mae cryn nifer yn cefnu ar y trefi gan droi nôl i gefn gwlad. Gwelir mentrau bychain yn cael eu sefydlu — plannu gwinllannoedd, tyfu malwod i dai bwyta, denu twristiaid ac ati. Hefyd, gwelir mwy yn astudio amaeth a sgiliau morwrol.




## DWYN DŴR

Mae Shell a nifer o gwmnïau olew eraill eisiau tyllu miloedd o ffynhonnau nwy 'ffracio' yn Ne Affrica rhwng Johannesburg a Cape Town. Ond, mewn ardal sych, mae ffermwyr lleol yn poeni y bydd hyn yn defnyddio cymaint â miliwn galwyn o ddŵr am bob ffynhonnell gan ddifetha'u bywoliaeth. Mae'r UDA yn cefnogi'r cynlluniau gan y byddant yn broffidiol iawn i gwmnïau Americanaidd fel Halliburton, Chesapeake Energy ac Exxon Mobil a ddatblygodd ffracio'n wreiddiol.

## GLO AR Y BLAEN

TREBLODD Tsieina ei gallu i gynhyrchu ynni haul y llynedd, gan gynyddu ei defnydd o ynni gwynt a dŵr yn ogystal. Yn anffodus, mae'r enillion mewn ynni adnewyddol yn cael eu diddymu gan y twf mewn defnydd glo. Llosgodd Tsieina 95 miliwn tunnell ychwanegol o lo'r llynedd. Mae hi'n gyfrifol am bron i hanner y glo a losgir ar y ddaear.

## AR DRYWYDD VW

TREFNODD Greenpeace i nifer o eirth (polar) gwyn ymweld â stondin Volkswagen yn Sioe Foduron Autosalon 2012 ym Mrwsel. Bu'r eirth yn tynnu sylw at gyfraniad allyriadau $CO_2$ gan geir i Gynhesu Byd-eang. Yn benodol, buon nhw'n protestio bod nifer o fodelau newydd VW yn llawer llai effeithiol yn eu defnydd petrol nag y gallent fod — a bod VW ynghanol grŵp lobïo sy'n gwrthwynebu ymdrechion i dorri allyriadau $CO_2$ ar draws Ewrop.

## PWY YW PWY'R $CO_2$

MAE Asiantaeth Gwarchod yr Amgylchedd yn yr UDA newydd gyhoeddi map ar-lein sy'n dangos ffynonellau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gellir dysgu faint o $CO_2$ a nwyon tŷ gwydr eraill sy'n dod o sefydliadau unigol fel pwerdai, ffatrïoedd ac adeiladau cyhoeddus, er nad yw'r data yn cynnwys diwydiannau cyfan megis amaeth. Mae pwerdai'n gyfrifol am 72%. Meddai swyddog, "Mae'n golygu bod pob disgybl ysgol uwchradd, neu ohebydd lleol, yn gallu gweld pwy yw'r llygrwyr carbon mwyaf yn ei ardd/gardd gefn ei hun."

## PERYGL METHAN

MAE allyriadau enfawr o nwy methan ym Môr yr Arctig wedi syfrdanu tîm o wyddonwyr ymchwil America-Rwsia. Nodwyd allyriadau methan o'r blaen o waelod y môr yn Nwyrain Siberia ond mae syndod yn wyneb y cynnydd mawr sy'n digwydd. Rhyddheir y methan gan fod y silffoedd iâ *a'r tundra'n* toddi oherwydd Cynhesu Byd-eang. Mae methan yn 20 gwaith yn gryfach fel nwy tŷ gwydr na $CO_2$ dros gyfnod o 100 mlynedd.

Mynnwch gwsg
ym mynwes natur






... gan gynnwys
i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

